

Arddodiaid

1. Arddodiaid Syml

Defnyddir arddodiad i ddangos y berthynas sydd rhwng enw/ rhagenw/ berf/ berfenw/ ansoddair a gair arall mewn brawddeg.

e.e. Mae'r llyfr ar y pentwr papurau.

Mae'n gweithio ar y prosiect.

Roeddem ni'n ddibynol ar haelioni.

Dyma'r arddodiaid mwyaf cyffredin:

am ar at gan

dros (*tros*) drwy (*trwy*) heb dan

hyd i o tan

wrth

Arddodiaid syml yw'r rhain – maent yn cynnwys **UN** gair

Ceir **Treigladau Meddal** bob amser ar ôl yr arddodiaid syml hyn.

Mae rhai arddodiaid eraill, er enghraifft **rhwng**, **gyda** ac **yn** nad ydynt yn cael eu dilyn gan Dreigladau Meddal.

Termau

arddodiad – preposition; perthynas – relationship;

2. Arddodiaid Cyfansawdd

Fe welwch fod arddodiad syml yn cynnwys **un** gair.

Gall arddodiad fod yn gyfansawdd hefyd.

Mae arddodiad o'r fath yn cynnwys **mwyr nag un** elfen (er bod y rhain weithiau'n cael eu hysgrifennu ar ffurf un gair clwm).

e.e. er mwyn ar ôl am ben oherwydd
 oblegid ynghylch uwchben

Arddodiaid Cyfansawdd Personol

I wneud arddodiad cyfansawdd yn bersonol, rhaid rhannu'r ddau air a gwneud hyn:

- mewnosod y rhagenwau rhwng y gair cyntaf a'r ail air:
(fy/f', dy/d', ei,ein,eich,eu)

er **ei** fwyn ef
am **ei** phen hi
ar **eich** ôl chi

- mewnosod y rhagenwau mewnol ('m, 'th, 'i, 'n, 'ch, 'u) ar ôl llafariad - (*ffurfiol iawn*)

o'**m** hamgylch i
o'**i** herwydd hi
o'**ch** blaen chi

Fformiwla : gair 1 + rhagenw + gair 2

Termau

syml – simple; cyfansawdd – compound; elfen – element; mewnosod – to insert; rhagenw blaen – prefixed pronoun; rhagenw mewnol – infixed pronoun.

Arddodiaid Cyfansawdd Personol a'r Treigladau

Bydd treigladau arferol y rhagenwau hyn yn eu dilyn, ond dylid cofio mai treiglo'r ffurf gysefin a wneir bob amser.

Fformiwla : gair 1 + rhagenw + gair 2

Enghreifftiau:

ar gyfer = ar + cyfer

Mae'r 'c' wedi newid i 'g' gan fod 'ar' yn achosi treiglad meddal.

Y ffurf gysefin felly yw 'cyfer'.

Wrth fewnosod rhagenw, y ffurf gysefin sy'n treiglo,

e.e.

ar fy nghyfer i (mae 'cyfer' yn treiglo'n drwynol ar ôl 'fy')

ar dy gyer di (mae 'cyfer' yn treiglo'n feddal ar ôl 'dy')

ar ei chyer hi (mae 'cyfer' yn treiglo'n llaes ar ôl 'ei'(ben))

ynghylch = yn + cylch

Mae'r 'c' wedi newid i 'ng' gan fod 'yn' yn achosi treiglad trwynol.

Y ffurf gysefin felly yw 'cylch'.

e.e.



yn fy nghylch i (mae 'cylch' yn treiglo'n drwynol ar ôl 'fy')
yn dy gylch di (mae 'cylch' yn treiglo'n feddal ar ôl 'dy')
yn ei chylch hi (mae 'cylch' yn treiglo'n llaes ar ôl 'ei'(ben))

Termau

ffurf gysefin – radical form.

Cymarfer Colegau – Uwch

Arddodiaid

Cyffredinol: Ymarfer1; Ymarfer 2.